# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 30 Tachwedd 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
12 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Ymgynghoriad ar 'Mynediad a Rhagoriaeth' (Caerffili)

**C8 Ron Davies:** A yw Jane Hutt yn bwriadu trefnu unrhyw ymgynghoriad penodol yng Nghaerffili ynghylch y ddogfen? (OAQ8134)

**Jane Hutt:** Cynhyrchwyd 'Mynediad a Rhagoriaeth' gan y Grŵp Datblygu Gwasanaethau Aciwt, ac mae'n elfen bwysig ar gyfer datblygu strategaeth NHS Cymru. Ar hyn o bryd, mae buddiolwyr allweddol yn ymgynghori ar 'Mynediad a Rhagoriaeth'. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn rhan o strategaeth yr NHS. Bydd y strategaeth yn gosod egwyddorion eang ar gyfer gwasanaethau aciwt. Penderfynir ar newidiadau penodol i'r gwasanaeth yn lleol. Byddai newidiadau sylweddol arfaethedig yn y gwasanaeth yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus. Cyfrifoldeb Awdurdod Iechyd Gwent fyddai hyn yn achos Caerffili.

### Manteision Asid Ffolig yn ystod Beichiogrwydd

**C9 Lorraine Barrett:** A wnaiff Jane Hutt roi amlinelliad o'r camau sydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod pob menyw yn cael ei chynghori ynghylch y manteision o gymryd asid ffolig yn ystod beichiogrwydd? (OAQ8140)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn annog menywod i gymryd rhagor o asid ffolig cyn ac yn ystod camau cyntaf beichiogrwydd drwy ddarparu taflenni a phosteri gwybodaeth sydd yn addas i'w defnyddio mewn amrywiaeth mawr o sefyllfaoedd gwasanaeth iechyd a sefyllfaoedd eraill. Darperir gwybodaeth hefyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym myd iechyd sydd yn gweithio gyda menywod sydd mewn oed cael plant.

### Derbyniadau Brys ar gyfer Meddyginiaeth i Oedolion

**C10 William Graham:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ynghylch y galw anarferol am dderbyniadau brys ar gyfer meddygaeth i oedolion, sydd yn golygu bod dros 100 y cant o welyau yn cael eu llenwi mewn llawer o ysbytai? (OAQ8138)

**Jane Hutt**: Yr wyf yn ymwybodol bod y pwysau ar gynnydd a bod y gaeaf fel petai wedi ein cyrraedd yn gynt na'r arfer eleni. Er mwyn paratoi ar gyfer y gaeaf hwn, yr wyf wedi rhoi nifer o gynlluniau ar waith a fydd yn rhoi sylw i hyn:

- fis Awst, cyhoeddodd y tasglu pwysau brys ganllawiau cynllunio ar gyfer y gaeaf i bob mudiad yn yr NHS a'i bartneriaid;
- mae'r ymgyrch 'Gofal Piau hi'r Gaeaf yma' wedi dechrau ac mae wedi'i dargedu tuag at bobl dros 65;

- drwy ddefnyddio'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael, gan gynnwys y dyraniad arbennig o £40 miliwn, mae'r NHS bellach wedi cynyddu nifer y gwelyau meddygol a gwelyau gofal critigol ac mae wedi penodi staff rheng flaen ychwanegol;
- ddechrau Rhagfyr, cyflwynir cofnodi o'r pwysau brys wythnosol a dyddiol ynghyd â monitro'r oedi cyn anfon pobl adref. Bydd hyn y galluogi mudiadau'r NHS i fonitro'r galw a blaenoriaethu'r camau y mae angen eu cymryd i ostwng nifer yr achosion o oedi cyn anfon pobl adref. Bydd yn dangos lefel y pwysau i'r Cynulliad a'r NHS, fel y gellir gweithredu yn ddiymdroi.

**Gwasanaethau Clywedeg yng Nghymru**

**C11 David Lloyd:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad byr ynghylch datblygu gwasanaethau clywedeg yng Nghymru yn y dyfodol? (OAQ8160)

**Jane Hutt:** Yr oedd darparu cymhorthion clyw digidol a moderneiddio gwasanaethau clywedeg dan sylw yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y gyllideb ddrafft, ac addewais archwilio hyn. Yr wyf eisoes wedi trafod y mater gyda Mr Jim Edwards, Cyfarwyddwr Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar Cymru, a gallaf eich sicrhau y byddaf yn llwyr gefnogi moderneiddio gwasanaethau clywedeg yng Nghymru, gan gynnwys edrych ar bosibilrwydd cyllido rhaglen fuddsoddi.

**Strategaeth Gofal Plant Cymru**

**C12 Val Feld:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ynghylch y cynnydd a wnaed o safbwynt strategaeth gofal plant Cymru? (OAQ8141)

**Jane Hutt:** Ers cyhoeddi'r Papur Gwyrdd dros strategaeth gofal plant genedlaethol Cymru ym Mehefin 1998, mae pob un o'r 22 partneriaeth leol ar gyfer datblygiad a gofal plant y blynyddoedd cynnar, sydd yn chwarae rhan holl bwysig o ran cyflwyno'r strategaeth gofal plant genedlaethol, wedi cynhyrchu cynlluniau gofal plant i fodloni anghenion eu hardaloedd lleol.

Hyd yn hyn, mae bron i £7.5 miliwn o nawdd wedi'i glustnodi i gefnogi'r strategaeth. Mae £2.3 miliwn o hwn ar gael yn 2000-01—£1.4 miliwn i'r partneriaethau lleol ar gyfer datblygiad a gofal plant y blynyddoedd cynnar a £900,000 i gynghorau hyfforddiant a menter i osod isadeiledd i gefnogi darparu gofal plant y tu allan i oriau ysgol. Bydd cyfanswm o £14.3 miliwn hefyd ar gael gan raglen ofal plant y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer lleoliadau gofal plant y tu allan i oriau ysgol yng Nghymru dros y cyfnod 1999-2003.

**Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl**

**C13 Helen Mary Jones:** Pryd y cyhoeddir fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl? (OAQ8144) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Briff Troseddau Ieuenctid**

**C14 Helen Mary Jones:** Pa bartneriaethau y mae Jane Hutt yn bwriadu eu sefydlu i ymdrin ag agweddau trawsbynciol y briff troseddau ieuenctid? (OAQ8171) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Nifer Myfyrwyr Meddygol**

**C15 Janet Ryder:** Sut mae Jane Hutt yn bwriadu cynyddu nifer y myfyrwyr meddygol yng Nghymru? (OAQ8161) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Chlamydia (Canfod a Chyfradd yr Haint)**

**C16 Janice Gregory:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i gynyddu'r gyfradd ar gyfer canfod chlamydia ac i ostwng y nifer sydd yn cael ei heintio ganddo? (OAQ8085)

**Jane Hutt:** Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion o chlamydia yn destun pryder yng Nghymru. Cydnabyddir hyn yn y cyhoeddiad diweddar, 'Fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo iechyd rhyw yng Nghymru', sydd yn cynnig camau i leihau y nifer a gaiff eu heintio gan glefydau a drosglwyddir drwy gysylltiad rhywiol. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o chlamydia a pheryglon o anffrwythlondeb. Caiff yr ymgyrch ei lansio yn hydref 2001. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cynulliad gynlluniau i gynyddu'r gyfradd ar gyfer canfod yr haint chlamydia.

**Cronfa Anghydraddoldebau Iechyd**

**C17 Lynne Neagle:** Sut fydd y gronfa anghydraddoldebau iechyd a gyhoeddwyd yn y gyllideb ddrafft yn gymorth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymoedd y de? (OAQ8106)

**Jane Hutt:** Yn amodol ar benderfyniadau'r Cynulliad ar y gyllideb ddrafft, defnyddir y gronfa o Fôn i Fynwy er mwyn cefnogi gweithgarwch hybu iechyd penodol a helpu timau gofal sylfaenol i ddatblygu eu gwaith gyda chymunedau ymhellach.

**Hyrwyddo Iechyd Da ymhlith Dynion**

**C18 Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i hyrwyddo iechyd da ymhlith dynion? (OAQ8086) [R]

**Jane Hutt:** Mae gweithgareddau a dargedir yn benodol at iechyd dynion yn cynnwys gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at eu hiechyd rhyw a'u hymwybyddiaeth o ganser ceilliol a chanser y brostad. Ar ben hynny, mae'r rhaglen weithredu sydd ar y gweill i roi'r strategaeth hybu iechyd ar waith yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau y mae iechyd a lles dynion yn rhan holl bwysig ohonynt.

**Cynlluniau Peilot PMS**

**C19 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad cryno ar ddatblygiad cynlluniau peilot PMS yng Nghymru? (OAQ8192) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Rhestrau Aros (Llawdriniaethau)**

**C20 Glyn Davies:** Faint yw canran y gostyngiad a welwyd yn nifer trigolion Cymru sydd yn gorfod aros am fwy na 12 mis am lawdriniaeth ers Mai 1997? (OAQ8139)

**Jane Hutt:** Ni chaiff gwybodaeth am amseroedd aros ei chofnodi ar wahân ar gyfer gweithdrefnau meddygol a gweithdrefnau lle nad oes angen llawfeddygaeth. Felly, gall ffigurau'r rhestrau aros gynnwys y rheini a oedd yn aros am driniaethau lle nad oes angen llawfeddygaeth. Yr oedd 11,938 o drigolion Cymru wedi gorfod aros dros 12 mis am driniaeth cleifion mewnol neu achos dydd ar 31 Hydref 2000, o'i gymharu â 6,274 ar 31 Mawrth 1997, cynnydd o 90 y cant. Yn 2000-01, derbyniodd awdurdodau iechyd £196 miliwn yn ychwanegol ar ben 1999-2000, gyda £40 miliwn, a £35 miliwn o hynny'n ailddigwydd, a ddyrannwyd yn benodol i roi sylw i amseroedd aros a phwysau brys.

**Yr Awyrlu yn Hedfan yn Isel (Effaith ar Glust Fewnol Plant)**

**C21 Mick Bates:** Pa ymchwil y mae Jane Hutt wedi ei gwneud i'r perygl y gallai hedfan isel o dan 300 metr gan yr Awyrlu greu niwed parhaol i glust fewnol plant yng Nghymru? (OAQ8101)

**Jane Hutt:** Nid oes ymchwil benodol wedi'i gwneud i effaith bosibl hedfan isel gan yr Awyrlu ar blant yng Nghymru drwy wneud niwed parhaol i'r glust fewnol.

Mae swyddogion wedi cael gafael ar wybodaeth am astudiaethau ar effaith hedfan yn isel ar blant, astudiaethau a gynhaliwyd yn yr Almaen yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Yr wyf wedi rhoi copi o'r wybodaeth hon yn y llyfrgell.

**Rhestrau Aros i weld Ymgynghorydd**

**C22 Nick Bourne:** Faint yw canran y cynnydd/gostyngiad yn nifer y cleifion yng Nghymru sydd yn gorfod aros am fwy na chwe mis i weld ymgynghorydd ers 31 Mawrth 1997? (OAQ8095) ***Tynnwyd yn ôl.***

**'Rhoi Cymru'n Gyntaf' (Presgripsiynau i rai rhwng 16-25)**

**C23 Peter Black:** Beth mae Jane Hutt wedi ei wneud i baratoi deddfwriaeth eilaidd er mwyn gwireddu'r ymrwymiad yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' i ddarparu presgripsiynau am ddim i rai rhwng 16-25 oed? (OAQ8064)

**Jane Hutt:** Yr ydym wedi ymrwymo i rewi cost pob ffi presgripsiwn yng Nghymru yn syth, gyda golwg ar ymestyn yr eithriadau i'r rheini sydd fwyaf eu hangen a'r rheini sydd â'r anawsterau mwyaf o ran talu ar hyn o bryd, gan ddechrau drwy ystyried pobl ifanc rhwng 16-25 oed yn benodol. Mae ffioedd presgripsiwn wedi'u rhewi ar eu lefelau presennol. Ac ystyried y gweddill, byddaf yn cyflwyno cynigion i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y gallaf.

**Gwasanaethau Rhewmatoleg (Awdurdod Iechyd Dyfed Powys)**

**C24 Christine Gwyther:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar ddarpariaeth gwasanaethau rhewmatoleg yn Awdurdod Iechyd Dyfed Powys? (OAQ8061) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ymestyn Llywodraeth Glinigol i gynnwys Therapïau Amgen**

**C25 Brian Hancock:** A oes gan Jane Hutt gynlluniau i ymestyn llywodraeth glinigol i gynnwys therapïau amgen? (OAQ8172) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gwasanaethau i rai sydd wedi'u heintio â Hepatitis C**

**C26 Dafydd Wigley:** Beth yw cynlluniau Jane Hutt mewn perthynas â darparu gwasanaethau i'r rhai sydd wedi cael eu heintio â Hepatitis C? (WAQ8150) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Diffyg Maeth mewn pobl sydd yn cael eu Derbyn i Ysbyty**

**C27 Mick Bates:** Faint o bobl sydd wedi cael eu derbyn i ysbytai Cymru sydd yn dioddef o ddiffyg maeth? (WAQ8100)

**Jane Hutt:** Mae'r tabl isod yn dangos nifer y cyfnodau-mewn-ysbyty yn ysbytai'r NHS yng Nghymru lle grybwyllwyd diffyg maeth fel diagnosis (nid o reidrwydd y prif ddiagnosis).

**Cyfnodau-mewn-ysbyty lle grybwyllwyd diffyg maeth[a] fel diagnosis**

| 1996-97 | 1997-98 | 1998-99 | 1999-00 |
|---|---|---|---|
| 155 | 176 | 149 | 174 |

Ffynhonell: *Patient Episode Database for Wales*
(a) ICD10 codau E40-E46, O25, P05.0, P05.1 a P05.2

**'Power to Save Lives'**

**C28 Kirsty Williams:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar ymgyrch 'Power to Save Lives' Ambiwlans San Ioan sydd wedi'i hanelu at gynyddu nifer y diffribilwyr allanol awtomatig mewn mannau cyhoeddus? (OAQ8067)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn cydnabod swyddogaeth bwysig diffribilwyr allanol awtomatig o ran helpu i achub bywydau a dymunaf bob llwyddiant i Ambiwlans San Ioan wrth iddynt godi arian ar gyfer diffriblwyr ychwanegol. Mae sicrhau bod ddiffribliad ar gael yn gyflym yn elfen yn strategaeth Cymru i fynd i'r afael ag afiechyd coronaidd. Ymgynghorir ar y strategaeth ar hyn o bryd. Ar ben hynny, defnyddir rhan o'r £0.5 miliwn a gyhoeddais yn ddiweddar i gefnogi a gwella gwasanaethau ambiwlans, er mwyn cyllido diffribilwyr ychwanegol.

### Darpariaeth Clust, Trwyn a Gwddf (Gorllewin Cymru)

**C29 Christine Gwyther:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar y ddarpariaeth clust, trwyn a gwddf yng ngorllewin Cymru? (OAQ8070) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Torri Rhestrau Aros (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**C30 Nick Bourne:** Beth yw'r targed ar gyfer torri rhestrau aros mewn ysbytai yng nghanolbarth a gorllewin Cymru erbyn mis Ebrill nesaf? (OAQ8094)

**Jane Hutt:** Ar 17 Mai, fe neilltuais £40 miliwn ychwanegol i'r NHS er mwyn mynd i'r afael â rhestrau aros a phwysau brys, gyda £35 miliwn ar gael yn rheolaidd o 2001-02. Cytunwyd ar dargedau uchel gyda phob awdurdod iechyd er mwyn lleihau rhestrau aros gan gynnwys:

- lleihau rhestr aros Cymru gyfan ar gyfer trin cleifion mewnol ac achosion dydd o 15,000
- dileu achosion o aros dros chwe mis am driniaeth cataract
- lleihau'n sylweddol nifer y bobl sydd wedi bod yn aros dros chwe mis i ymweld ag adran allgleifion am y tro cyntaf

Mae Awdurdod Iechyd Dyfed Powys wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'u cyfran hwy o'r achosion hyn ac maent wedi cytuno ar dargedau unigol gyda'r ymddiriedolaethau sydd yn darparu ar eu cyfer. Byddant hefyd yn cyfrannu at y broses o ddileu achosion o aros dros 12 mis am driniaeth arferol, heblaw achosion orthopedig a phlastig. Mae'r Cynulliad yn monitro'n agos y cynnydd a wneir yn erbyn y targedau hyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Myfyrwyr sydd yn Methu â Chwblhau Cyrsiau Prifysgol neu Goleg

**C6 William Graham:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ynglyn â nifer y myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd sydd yn methu â chwblhau eu cyrsiau mewn prifysgol neu goleg? (OAQ8117)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae ffigurau diweddaraf Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 1998-99 yn nodi bod 21 y cant o fyfyrwyr addysg bellach wedi methu â chwblhau eu hastudiaethau. Mae'r nifer nas gwblhaodd eu hastudiaethau wedi'i rannu'n gyfartal rhwng myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd. Nid yw'r wybodaeth y gofynnir amdani ar gael ar gyfer myfyrwyr addysg uwch. Fodd bynnag, efallai y byddai'r Aelod yn dymuno cael gwybod bod y ffigurau diweddaraf yn nodi yn ystod 1998-99, bod 7.5 y cant o fyfyrwyr ifanc addysg uwch yng Nghymru ac 17.1 y cant o fyfyrwyr hŷn addysg uwch yng Nghymru wedi methu â pharhau ar ôl eu blwyddyn gyntaf.

### Ymchwiliad Arfaethedig i Galedi ac Ariannu Myfyrwyr

**C7 Nick Bourne:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar yr ymchwiliad arfaethedig i galedi ac ariannu myfyrwyr yng Nghymru yn unol â'r amlinelliad yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ8103)

**Jane Davidson:** Fel a ddywedais wrth ateb OAQ8048 Peter Black yn ystod y Cyfarfod Llawn heddiw, byddaf yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Cyfarfod Llawn ar 5 Rhagfyr ar gylch gorchwyl ac aelodaeth yr ymchwiliad annibynnol i galedi ac ariannu myfyrwyr yng Nghymru. Yn dilyn hynny, caiff y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes wybod am amseroedd yr ymchwiliad ar 13 Rhagfyr.

**Dychwelyd Papurau Arholiad i Ymgeiswyr**

**C8 Brian Gibbons:** Sawl ymgeisydd mewn arholiadau yng Nghymru yn y flwyddyn arholi ddiwethaf a fanteisiodd ar y cyfle i gael eu papurau arholiad wedi'u marcio gyda nodiadau arnynt wedi'u dychwelyd iddynt? (OAQ8051)

**Jane Davidson:** Nid yw'r wybodaeth lawn ar gyfer Cymru ar gael eto. Mae'r wybodaeth ar gyfer Cyd-bwyllgor Addysg Cymru fel a ganlyn:

- Ar gyfer cyrsiau Safon Uwch, cafwyd 218 cais am lungopïau o bapurau cyn gwneud ymholiadau am y canlyniadau. Yr oedd 184 o'r rhain gan ymgeiswyr Cymraeg.
- Cafwyd 125 cais (94 o Gymru) ar gyfer llungopïau o bapurau Safon Uwch a TGAU gyda chanlyniadau'r ailfarcio.
- Gyda'i gilydd, cafwyd ceisiadau am 1411 (1198 o Gymru) o bapurau Safon Uwch a TGAU ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymholiadau ynghylch canlyniadau.

**Gwella Amodau Cyflogaeth Staff mewn Addysg Uwch**

**C9 Geraint Davies:** Pa ystyriaeth y mae Jane Davidson wedi'i rhoi i ddulliau o wella amodau cyflogaeth staff y sector addysg uwch yng Nghymru? (OAQ8163)

**Jane Davidson:** Nid yw hwn yn fater ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Mae sefydliadau addysg uwch yn gyrff annibynnol awtonomaidd sydd yn gyfrifol am reoli eu hunain, gan gynnwys tâl ac amodau cyflogaeth eu staff. Mae'r Cynulliad fodd bynnag, yn disgwyl i'r sefydliadau ddilyn polisi tâl y sector cyhoeddus drwy ystyried tegwch, bod angen penodi, ysgogi a chadw staff a hefyd, cadw o fewn terfynau fforddiadwy'r cyfyngiadau a osodwyd gan y setliadau grant.

**Atgyweirio ac Amnewid Adeiladau Ysgol**

**C10 Ann Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Davidson i ddefnyddio'r adnoddau ychwanegol a amlinellwyd yn y gyllideb i sicrhau buddsoddiad i atgyweirio ac amnewid adeiladau ysgol sydd yn dadfeilio yng Nghymru? (OAQ8060)

**Jane Davidson:** Yn y gyllideb ddrafft, cyhoeddodd Gweinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 19 Hydref y byddai £293 miliwn gael ar gyfer cyllid cyfalaf i'w wario ar addysg dros y tair blynedd 2001-02, 2002-03 a 2003-04. Ac eithrio'r cyllid ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, cyllid y mae'r Cynulliad yn ei ddyfarnu i'r cyrff llywodraethol yn uniongyrchol yn yr achosion hynny, caiff y cyllid ei sianelu drwy awdurdodau lleol. Caiff eu gwariant a'u cynlluniau eu hystyried yng nghyd-destun y cynigion a wnânt ar gyfer dyrannu cronfeydd y fargen newydd ar gyfer ysgolion. Er mwyn sicrhau bod y cynigion hyn yn cael eu cymeradwyo, rhaid i awdurdodau ddangos eu bod ar ben eu rhaglenni cyfalaf cyffredinol ar gyfer ysgolion a'u bod yn mynd i'r afael ag anghenion blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi. Bydd cynlluniau rheoli asedau, a ddylai fod ar gael flwyddyn nesaf, yn cynorthwyo'r Cynulliad i farnu cynigion o'r fath.

**Arian a Gronnwyd gan y Cynghorau Hyfforddiant a Menter**

**C11 Rhodri Glyn Thomas:** Pryd y gallwn ddisgwyl clywed faint o arian sydd wedi'i gronni gan y cynghorau hyfforddiant a menter, a fydd ar gael i'w ddefnyddio gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant? (OAQ8121)

**Jane Davidson:** Dan gontractau'r Cynulliad gyda chynghorau hyfforddiant a menter yn eu blwyddyn olaf, ni allant gynhyrchu gweddillion ar gyfer cyllido gweithgarwch dewisol. Caiff ymrwymiadau presennol a busnes newydd eu bodloni gan gyfuniad o ddarpariaeth cronfeydd menter lleol a gwario'r arian wrth gefn sydd wedi cronni. Mae'r arian wrth gefn yn gostwng ar hyn o bryd wrth i wariant gronni a'r galwad cyntaf ar weddill yr arian sydd wrth gefn a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn fydd ar gyfer ymrwymiadau a etifeddir gan gyrff olynol. Mae'r arian wrth gefn sydd ar gael i'w ddychwelyd i'r Cynulliad felly yn dibynnu ar lefel y gwariant a'r ymrwymiadau a wneir yn ystod gweddill y flwyddyn. Caiff y sefyllfa ei hadolygu fel rhan o'r prosiect i roi'r cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant ar waith.

**Cyrsiau Addysg Rhyw mewn Ysgolion**

**C12 Kirsty Williams:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar effeithiolrwydd cyrsiau addysg rhyw yn ysgolion Cymru? (OAQ8082)

**Jane Davidson:** Mae'r ddeddfwriaeth sydd yn rheoli addysg rhyw yn mynnu bod ysgolion yn sicrhau pan ddysgir addysg rhyw mewn ysgolion gwladol, bod rhaid diogelu'r disgyblion rhag dysg a deunyddiau amhriodol mewn perthynas â'u hoedran, eu crefydd a'u cefndir diwylliannol. Rhaid i'r ysgol hefyd sicrhau bod disgyblion yn dysgu am natur priodas a'i phwysigrwydd o ran bywyd teuluol a magu plant. Mewn ysgolion uwchradd, rhaid i addysg rhyw gynnwys dysgu am HIV ac AIDS a chlefydau eraill a drosglwyddir drwy gysylltiad rhywiol.

Mae canllawiau presennol y Cynulliad sydd yn trafod addysg rhyw yn argymell y dylai pob disgybl gael cyfle i dderbyn rhaglen addysg rhyw gynhwysfawr ac sydd wedi'i strwythuro'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, a fydd yn cyfateb i'w hoed a'u dealltwriaeth a dymuniadau eu rhieni. Mae copïau o ganllawiau presennol y Cynulliad 'Addysg Rhyw mewn Ysgolion' (cylchlythyr 45/94), ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.

Mae Adran 148 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, a ddechreuodd ar 1 Tachwedd, yn mynnu bod y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau yng Nghymru sydd yn rhoi sylw i faterion penodol wrth ddysgu addysg rhyw. Cyhoeddwyd 'Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo Addysg Rhyw yng Nghymru', fel a amlinellir yn 'Gwell Iechyd, Gwell Cymru', y llynedd ac yr oedd yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer addysg rhyw a pherthynas pobl â'i gilydd.

Gyda golwg ar y cefndir hwn, mae'r Cynulliad ar ganol cwblhau canllawiau arfaethedig newydd ar addysg rhyw a pherthynas pobl â'i gilydd fel bo modd ymgynghori'n helaeth arnynt cyn gynted ag y bod modd yn 2001. Bydd y canllawiau newydd yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd datblygu polisi ysgol ar gyfer addysg rhyw a pherthynas pobl â'i gilydd, ond bydd hefyd yn tanlinellu bod angen ystyried plant o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol, a disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anawsterau dysgu. Mae mwy o bwyslais ar swyddogaeth a chyfranogiad rhieni, gan gynnwys bod angen ymgynghori â rhieni a'u cefnogi. Mae hawliau rhieni i dynnu eu plant o ddosbarthiadau addysg rhyw yn parhau yr un peth a chânt eu hegluro yn fanylach.

Bydd ffocws manylach ar faterion mwy penodol ym maes iechyd rhyw o ran dysgu addysg rhyw ac am berthynas pobl â'i gilydd, gan gynnwys llencyndod, mislif, atal cenhedlu, erthyliad, rhyw diogel a heintiadau drwy gysylltiad rhywiol gan gynnwys HIV ac AIDS. Fodd bynnag, mae rhai o'r agweddau biolegol a grybwyllir yn y cylchlythyr presennol 45/94 bellach yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghymru.

Bydd y canllawiau arfaethedig yn cysylltu addysg rhyw a pherthynas pobl â'i gilydd yn y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol, sydd yn amlinellu datblygu agweddau a gwerthoedd, sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy gefnogi addysg rhyw a pherthynas pobl â'i gilydd yng nghwricwlwm

ehangach ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, gall ysgolion sicrhau bod disgyblion yn derbyn eu haddysg rhyw yng nghyd-destun ehangach perthnasau, a'u bod wedi'u paratoi ar gyfer y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a'r profiadau sydd yn rhan o fywyd oedolyn.

Tra bo'r canllawiau presennol ond yn crybwyll bod angen rhoi sylw i faterion dadleuol wrth bennu polisi addysg rhyw, bydd y canllawiau newydd yn cymryd rhai camau i ddelio gyda materion fel rhywioldeb a thueddfryd rhywiol yn fwy agored. Dylai athrawon allu delio yn onest ac yn sensitif gyda materion tueddfryd rhywiol, ateb cwestiynau priodol a chynnig cefnogaeth, ond ni ddylid hyrwyddo tueddfryd rhywiol yn uniongyrchol. Bydd y canllawiau newydd yn rhoi sylw i farn pobl ifanc sydd yn aml yn cwyno am ffocws agweddau corfforol atgenhedlu a diffyg trafodaeth am deimladau a pherthynas. Bydd y cyswllt gydag addysg bersonol a chymdeithasol yn helpu i wneud iawn am yr anghydbwysedd hwn, a bydd pwyslais hefyd ar gynnwys y disgyblion a sicrhau eu bod yn cyfranogi.

### Gwariant Addysg (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)

**C13 Ron Davies:** Pa ganran o wariant addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion? (OAQ8058)

**Jane Davidson:** Ar sail elw'r cyfrif refeniw ar gyfer 2000-01, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwario 97 y cant o'r gyllideb addysg ar ysgolion. Caiff 82 y cant o hwnnw (79 y cant o'r holl gyllideb addysg) ei roi i'r ysgolion.

### Cynnydd ar Leihau Caledi Ymhlith Myfyrwyr

**C14 Owen John Thomas:** Faint o gynnydd a fu hyd yn hyn yn ymdrechion Llywodraeth Cymru i geisio lleihau caledi ymhlith myfyrwyr? (OAQ8105)

**Jane Davidson:** Mater i'r Adran Addysg a Chyflogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr yw polisi ffioedd dysgu a chymorth i fyfyrwyr. Ni throsglwyddwyd y swyddogaeth hon i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mater i'r Adran Addysg a Chyflogaeth yw monitro effaith y trefniadau newydd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr a gwneud newidiadau priodol i sicrhau bod digon o arian ar gael i fyfyrwyr fel y gallant ymgymryd â'u hastudiaethau.

O ran y Cynulliad, bydd cronfeydd mynediad ar gael i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru fel y gallant roi cymorth dewisol, yn ôl eu disgresiwn, i fyfyrwyr sydd yn wynebu anawsterau ariannol yn ystod eu gyrfa yn y coleg neu a fyddai, fel arall, yn methu â dilyn eu cwrs yn y lle cyntaf am resymau ariannol. Ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf (2001-02) bydd £11.5 miliwn ar gael, sydd yn gynnydd o dros £2.5 miliwn ers 2000-01.

Yn ogystal, bydd y Cynulliad yn cynnal ymholiad annibynnol ynghylch caledi ymhlith myfyrwyr a nawdd yng Nghymru, gan ymdrin â'r materion hynny sydd yn rhan o'i gylch gwaith, fel a nodir yn y cytundeb partneriaeth.

### Trafodaethau ar yr Ymarfer Asesu Ymchwil sydd ar Ddod

**C15 Elin Jones:** Pa drafodaethau y mae Jane Davidson wedi'u cael â chynrychiolwyr y sector addysg uwch yng Nghymru wrth baratoi ar gyfer yr ymarfer asesu ymchwil sydd ar ddod? (OAQ8119)

**Jane Davidson:** Dim. Caiff yr ymarfer asesiad ymchwil ei gynnal ar y cyd gan y pedwar corff sydd yn cyllido addysg uwch yn y DU: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch yr Alban a'r Adran Addysg yng Ngogledd Iwerddon. Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol ran yn yr ymarfer.

### Datblygu Cyfundrefn Addysg Gymreig

**C16 Cynog Dafis:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar ymrwymiad y weinyddiaeth tuag at ddatblygu cyfundrefn addysg Gymreig a pha fesurau penodol sydd ganddi mewn golwg i wireddu'r ymrwymiad hwnnw? (OAQ8166)

**Jane Davidson:** Nodir amcanion y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer addysg yng Nghymru yn 'Gwellcymru.com' ac yn y ddogfen ddiweddar ar bartneriaeth 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'. Mae'r rhain yn adeiladu ar y polisïau a nodwyd yn y papur gwyn ar addysg i Gymru 'Adeiladu Ysgolion Ardderchog Gyda'n Gilydd' a gyhoeddwyd yn 1997 a chynigion Adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant a gyhoeddwyd yn 1999.

Rhyngddynt mae'r ddwy ddogfen hon yn nodi amryw o fesurau wedi'u llunio'n benodol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion addysgol yng Nghymru. Yr wyf wedi ymrwymo i ddatblygu'r rhain drwy gyfrwng partneriaeth ag awdurdodau lleol, y Cyngor newydd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, y sector addysg uwch, y proffesiwn addysgu, ysgolion a chyrff eraill â diddordeb.

**Torri Maint Dosbarthiadau Ysgolion Uwchradd**

**C17 David Melding:** A yw Jane Davidson yn bwriadu torri maint dosbarthiadau ysgolion uwchradd? (OAQ8079) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Anghenion Addysgol Arbennig**

**C18 Alun Cairns:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar anghenion addysgol arbennig? (OAQ8074)

**Jane Davidson:** Yn ddiweddar, mae'r Cynulliad wedi cwblhau ymgynghoriad yng Nghymru ar god ymarfer diwygiedig drafft ynghylch anghenion addysgol arbennig. Mae swyddogion ar ganol casglu a dadansoddi tua 150 o ymatebion a dderbyniwyd gan grwpiau sydd â diddordeb yn y maes yng Nghymru.

Mae paratoi cod ymarfer diwygiedig ynghylch anghenion addysgol arbennig, a ddaw gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo maes o law, yn dilyn ymrwymiad allweddol yn rhaglen gweithredu anghenion addysgol arbennig Cymru'r Cynulliad, 'Siapio'r Dyfodol ar gyfer Addysg Arbennig', sydd yn gosod mesurau a anelwyd at wella polisi ac ymarfer anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Mae ymrwymiad allweddol arall yn y rhaglen weithredu yn adlewyrchu cynlluniau'r Llywodraeth i gyflwyno Mesur Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd yn ystod sesiwn nesaf y Senedd. Os daw'r Mesur i rym, bydd yn sail i sawl agwedd o'r gwelliannau a geisiwn, sydd yn golygu cynnwys rhagor o blant mewn ysgolion a dosbarthiadau prif ffrwd, darparu cyngor a chefnogaeth mwy effeithiol ac annibynnol ar gyfer rhieni pob plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig a bod modd cael gafael ar wasanaethau cymodi i ddatrys anghydfod cyn bod rhaid troi'n ffurfiol at dribiwnlys anghenion addysgol arbennig.

Byddai'r Mesur hefyd yn rhoi grym statudol i'r argymhellion a gyhoeddwyd gan y tasglu hawliau anabledd mewn perthynas ag addysg. Yn y dyfodol byddai rhaid i ysgolion ac awdurdodau addysg gynllunio'n systematig i gynyddu nifer y plant anabl sydd yn mynd i'r ysgol ac yn dilyn y cwricwlwm. Byddai dyletswyddau tebyg hefyd yn berthnasol i ddarparwyr addysg ôl-16.

Mae copi o raglen weithredu anghenion addysg arbennig y Cynulliad, 'Siapio'r Dyfodol ar gyfer Addysg Arbennig' ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.

**Y Cynllun Cymunedau Gwifrog**

**C19 Lorraine Barrett:** A yw Jane Davidson wedi cael trafodaethau â'r Adran Addysg a Chyflogaeth ar y cynllun Cymunedau Gwifrog a sut y gellid ei gysylltu â'r cynnydd mewn darpariaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn ysgolion yng Nghymru? (OAQ8113)

**Jane Davidson:** Naddo. Byddaf, fodd bynnag, yn cyhoeddi cynigion yn fuan ar gyfer ei gwneud yn haws i gael gafael ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi dysgu gydol oes yng Nghymru.

**Gwrth-droi'r Cynnydd ym Maint Dosbarthiadau Ysgolion Uwchradd**

**C20 Jonathan Morgan:** A fydd Jane Davidson yn gwrth-droi'r cynnydd ym maint dosbarthiadau ysgolion uwchradd ledled Cymru? (OAQ8081) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gwerth Cronfeydd Mynediad a Chaledi wrth Ehangu Mynediad i Addysg Uwch**

**C21 Elin Jones:** Pa asesiad a gafwyd o werth cronfeydd mynediad a chaledi wrth ehangu'r mynediad i addysg uwch? (OAQ8124)

**Jane Davidson:** Rhaid i sefydliadau addysg uwch Cymru ddarparu datganiadau monitro blynyddol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch defnyddio cronfeydd mynediad a chaledi. Caiff y datganiadau hyn eu hystyried gan y Cynulliad wrth gynhyrchu canllawiau blynyddol ar gyfer sefydliadau ynghylch defnyddio'r cronfeydd. Ymhlith pethau eraill, mae'r canllawiau'n cyfeirio at y grwpiau o fyfyrwyr a ddylai dderbyn blaenoriaeth wrth rannu cronfeydd. Drwy wneud hyn, gellir targedu'r cronfeydd at y myfyrwyr hynny sydd ag angen mwy o gymorth ariannol i ddechrau mewn prifysgol neu sydd ag anghenion cefnogaeth ariannol ychwanegol tra eu bod yno.

Ar ben hynny, adolygodd yr Adran Addysg a Chyflogaeth y defnydd a wnaed o gronfeydd mynediad yng Nghymru a Lloegr yn ystod 1999 fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i adolygu trefniadau cefnogi myfyrwyr addysg uwch a gyflwynwyd ar ddechrau blwyddyn academaidd 1998-99. Un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad oedd bod angen cefnogaeth ariannol ychwanegol ar nifer o fyfyrwyr hŷn er mwyn derbyn lle ar gwrs prifysgol. Cyflwynwyd bwrsariaethau myfyrwyr hŷn gan y Cynulliad yng Nghymru a chan yr Adran Addysg a Chyflogaeth yn Lloegr ar gyfer blwyddyn academaidd 2000-01 yn benodol i fynd i'r afael â'r anhawster hwn.

**Ymchwiliad i Ffïoedd Hyfforddi Myfyrwyr yng Nghymru**

**C22 Mick Bates:** Pryd y mae Jane Davidson yn disgwyl i'r ymchwiliad i ffïoedd hyfforddi myfyrwyr yng Nghymru gychwyn ar ei archwiliad? (OAQ8091)

**Jane Davidson:** Yn gyntaf oll, carwn egluro nad yw'r Cynulliad yn cynnal ymchwiliad i ffioedd hyfforddi myfyrwyr. Yr Adran Addysg a Chyflogaeth sydd yn dal i fod yn gyfrifol am bolisi ffioedd hyfforddi yng Nghymru ac yn Lloegr. Ni ddatganolwyd y swyddogaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Fel a nodir yn ein cytundeb partneriaeth, byddwn yn cynnal archwiliad annibynnol i fater caledi ac ariannu myfyrwyr, a fydd yn delio â'r materion dan sylw yn adroddiad Cubie yr Alban ac sydd yn rhan o gylch gwaith y Cynulliad. Byddaf yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Cyfarfod Llawn ar 5 Rhagfyr ynghylch cylch gorchwyl ac aelodaeth yr archwiliad annibynnol i galedi ac ariannu myfyrwyr yng Nghymru ac yn dilyn hynny, caiff y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes wybod am amseroedd yr ymchwiliad ar 13 Rhagfyr.

**Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun**

**C23 Alun Pugh:** A oes gan Jane Davidson unrhyw gynlluniau i ymweld ag Ysgol Brynhyfryd yn Rhuthun? (OAQ8176)

**Jane Davidson:** Mae Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun ar restr o ysgolion ar hyd a lled Cymru yr wyf yn gobeithio ymweld â hwy pan gyfyd cyfle priodol. Bu fy rhagflaenydd fodd bynnag, Rosemary Butler AC, yn ymweld ag Ysgol Bryhyfryd ar 3 Chwefror 2000.

**Rôl Ysgolion Steiner yn y Gyfundrefn Addysg yng Nghymru**

**C24 Lorraine Barrett:** A yw Jane Davidson wedi cael sylwadau ynghylch rôl ysgolion Steiner o fewn y gyfundrefn addysg yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol? (OAQ8112)

**Jane Davidson:** Nid wyf wedi derbyn sylwadau gan y mudiad Steiner, er y gwn bod yr Adran Addysg a Chyflogaeth yn cael trafodaethau gyda Chymrodoriaeth Steiner ac eraill ar hyn o bryd fel rhan o ystyriaethau David Blunckett i ddarparu mwy o amrywiaeth ym myd addysg.

Mae'r cwestiwn ehangach o fwy o amrywiaeth ar gyfer disgyblion rhwng 5 ac 16 yn fater ar wahân, y bydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes am ei ystyried pan gyfyd cyfle.

### Newidiadau i'r Cwricwlwm yng Nghymru (Trafodaethau)

**C25 Gareth Jones:** Pa drafodaethau y mae Jane Davidson wedi'u cael gyda chynrychiolwyr cyrff y tu allan i Gymru ynghylch newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru? (OAQ8127)

**Jane Davidson:** Dim. Fodd bynnag, wrth adolygu'r cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Cymru, yr oedd swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad rheolaidd â'u swyddogion cyfatebol yn yr Adran Addysg a Chyflogaeth. Ar ben hynny, yn ystod yr adolygiad, cynhaliodd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru ACCAC drafodaethau gyda'r cyrff cwricwlwm partner yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Iwerddon, fel rhan o gyfarfodydd rheolaidd rhwng y cyrff hynny. Yr oedd ACCAC hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â chyrff eraill a oedd â diddordeb yn y maes. Cymeradwyodd y Cynulliad Cenedlaethol y cwricwlwm diwygiedig ar gyfer Cymru yn ei Gyfarfod Llawn ar 19 Ionawr 2000 ac fe'i rhoddwyd ar waith mewn ysgolion y tymor hwn.

### Addysg ym Mro Morgannwg

**C26 David Melding:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar addysg ym Mro Morgannwg? (OAQ8078) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Datblygu Meysydd Llafur Neilltuol Cenedlaethol i Ddisgyblion Ysgol yng Nghymru

**C27 Jocelyn Davies:** Ym mha ffyrdd y mae'r cyrff addysg presennol sydd yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyfrannu at ddatblygu ymhellach feysydd llafur neilltuol cenedlaethol i ddisgyblion ysgol yng Nghymru? (OA8128) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gwella Safonau Addysg yng Nghaerdydd

**C28 Jonathan Morgan:** A wnaiff Jane Davidson datganiad ar sut y mae'n bwriadu gwella safonau addysg yng Nghaerdydd? (OAQ8080) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Goblygiadau Datblygiadau Diweddar yn y Cwricwlwm Cenedlaethol

**C29 Gareth Jones:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar ddatblygiadau diweddar o fewn y cwricwlwm cenedlaethol a'r goblygiadau ar gyfer ysgolion Cymru? (OAQ8167)

**Jane Davidson:** Yr wyf am eich cyfeirio at yr ateb a roddodd Rosemary Butler i OAQ3273 a ofynnwyd gan Pauline Jarman ar 2 Chwefror 2000, y mae copi ohono isod.

### Cwricwlwm Cenedlaethol

**C12 Pauline Jarman:** A all Rosemary Butler ein sicrhau y bydd athrawon yn gallu gweithredu'r cwricwlwm cenedlaethol newydd mewn ffordd sydd yn adlewyrchu gwerthoedd ac anghenion Cymru? (OAQ3273)

**Rosemary Butler:** Gallaf roi'r sicrwydd hwnnw. Mae'n briodol mai'r cwricwlwm a drafodwyd gan y Cynulliad ar 19 Ionawr oedd y cyntaf i'w ddatblygu yng Nghymru a'i lunio i gyfateb i nodweddion ac anghenion penodol addysg yng Nghymru. Yr oeddwn wrth fy modd, er na'm synnwyd, iddo gael croeso mor gynnes gan Aelodau'r Cynulliad ac athrawon ledled Cymru.

Un agwedd newydd ar y cwricwlwm yw ei fod yn tynnu sylw'n benodol at gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsgwricwlaidd gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig. Yn y dyfodol, bydd y cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol a ieithyddol Cymru yn eglurach nag y buont erioed.

### Cwrdd ag Anghenion yn sgîl Ymestyn Addysg Blynyddoedd Cynnar

**C30 Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Davidson i hyfforddi mwy o gynorthwywyr meithrin, rhai dwyieithog ac fel arall, er mwyn bod yn barod i gwrdd â'r anghenion a ddaw yn sgîl estyniad addysg blynyddoedd cynnar i bob plentyn tair a phedair oed? (OAQ8104)

**Jane Davidson:** Fel rhan o'n hadolygiad o addysg y blynyddoedd cynnar, yr wyf wedi amlygu'r angen i gynnal archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer plant teirblwydd ledled pob sector yn ystod 2001-02. Bydd canlyniadau'r archwiliad hwn yn darparu gwybodaeth ar gyfer ein penderfyniadau i sicrhau bod fframwaith strategol, sydd yn darparu ar gyfer anghenion pawb, yn cael ei sefydlu.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Darparu Papurau Pwyllgor Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd

**C9 Elin Jones:** A all Pwyllgor y Tŷ wneud datganiad ynglŷn â sicrhau bod papurau pwyllgor Cymraeg a Saesneg ar gael ar yr un pryd? (OAQ8180) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Mae Rheol Sefydlog Rhif 8.19 yn nodi

'Cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, trefnir bod dogfennau sydd yn ymwneud â busnes y bwriedir ymdrin ag ef mewn cyfarfodydd pwyllgor ar gael i aelodau'r pwyllgor yn Gymraeg a Saesneg o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfodydd y maent yn berthnasol iddynt.'

Mae Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor yn anelu at ddosbarthu papurau'r pwyllgor erbyn amser cinio, pedwar diwrnod gwaith cyn cyfarfod pwyllgor (h.y. dydd Iau ar gyfer cyfarfod ar ddydd Mercher), er mwyn galluogi Aelodau i argraffu papurau cyn iddynt adael am eu hetholaeth ar brynhawn Iau.

Caiff y perfformiad o'i gymharu â'r dyddiadau olaf ar gyfer dosbarthu papurau pwyllgor ei fonitro'n fisol. Gan fod yr wybodaeth hon yn fanwl ac ar ffurf tabl, ysgrifennaf at Elin gyda manylion perfformiad y 12 mis diwethaf.

### Darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain yn y Cynulliad

**C11 Karen Sinclair:** A wnaiff Pwyllgor y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd a wnaethpwyd ganddo ar ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain, BSL, yn adeilad y Cynulliad? (OAQ8190) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**John Marek:** Nid yw Pwyllgor y Tŷ wedi cael cyfle hyd yma i ystyried darparu Iaith Arwyddion Prydain yn adeilad y Cynulliad.

Mae papur ar yr opsiynau i'w gwneud yn haws i bobl fyddar a phobl sydd yn drwm eu clyw ddilyn trafodion y Cynulliad wedi'i baratoi ar gyfer cyfarfod Cwmni Darlledu'r Cynulliad yr wythnos nesaf. Ar

ôl derbyn sylwadau'r Bwrdd, diwygir ymarferoldeb a chostau'r opsiynau a gynigwyd a'u cyflwyno i Bwyllgor y Tŷ i'w hystyried.

### Teithiau Awyr

**C14 Rhodri Glyn Thomas:** Pa arweiniad a all y Pwyllgor ei roi i Aelodau sydd yn gwneud teithiau awyr? (OAQ8185)

**John Marek:** Disgwylir i'r Aelodau deithio yn y dull mwyaf cost effeithiol, gan ystyried cost gwirioneddol teithio a chost treuliau aros dros nos. Pan fyddant yn hedfan, gall Aelodau ddefnyddio'r dosbarth busnes neu'r dosbarth cyfatebol.

## Tâl a Lwfansau'r Aelodau

**C15 William Graham:** Ai'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch fydd yn gyfrifol am bennu tâl a lwfansau Aelodau? (OAQ8174)

**John Marek:** Na.

### Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig (Cyhoeddi)

**C16 Cynog Dafis:** Sut y mae Swyddfa'r Llywydd yn monitro cyhoeddi atebion i gwestiynau ysgrifenedig? (OAQ8178)

**John Marek:** Cyhoeddir atebion y cwestiynau ysgrifenedig mewn bwletin wythnosol ar y rhyngrwyd a'r fewnrwyd bob dydd Llun gan gangen Cofnod y Trafodion. Cyhoeddir yr atebion pan gânt eu derbyn gan Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, neu, yn achos cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ, gan gangen Cyllid a Phersonél Swyddfa'r Llywydd. Bydd tîm Cofnod y Trafodion yn cynnal mesurau perfformiad ar gyhoeddi atebion i gwestiynau llafar nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn, ac atebion i gwestiynau ysgrifenedig o Ragfyr eleni ymlaen. Caiff y mesurau perfformiad eu hadolygu'n rheolaidd gan Glerc y Cynulliad.